

# Geiriau a gweithredoedd

*“Byddwch yn barod bob amser i roi ateb i bob un fydd yn ceisio gennych gyfrif am y gobaith sydd ynoch.” (adn. 15)*

## Beth am ddarlflen 1 Pedr 3:8–22 ac yna myfyrio

Mae'r eglwysi hynny sydd yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion cymdeithasol yn tueddu i esgusodi eu hunain trwy ddweud: “Yr ydym yn pregethu yr Efengyl, nid â geiriau ond â gweithredoedd.” Mae cymryd sylw o anghenion cymdeithasol yn bwysig i'r Eglwys, ond ni all byth gymryd lle efengylu penodol. A allwch ddychmygu Iesu, yr un a ddisgrifir fel y Gair a wnaethpwyd yn gnawd, yn dweud: “Byddaf y Gair a wnaethpwyd yn gnawd yn unig. Byddaf yn gadael i bobl weld yr hyn ydwyf trwy yr hyn yr wyf yn ei wneud yn unig, nid trwy yr hyn yr wyf yn ei ddweud.” Hanner datguddiad fyddai hyn. Byddai fel aderyn yn ceisio hedfan gydag un adain. Geiriau a gweithredoedd yw dwy adain y Cristion. Mae'r rhai sydd yn galw am eiriau yn unig, a'r rhai sydd yn galw am weithredoedd yn unig, yn anghywir. Yr ydym yn perthyn i'r un oedd â'i eiriau yn weithredoedd, a'i weithredoedd yn eiriau. Yr oedd y ddau mewn perthynas iawn â'i gilydd.

Er nad yw'n angenrheidiol i ni bregethu i bobl yn wastad, eto, yn ôl ein testun heddiw, dylem gymryd mantais o bob cyfle i rannu Crist mewn ffordd sydd yn enillgar. Beth petai'r eglwys yn Antiochia wedi ei meddiannu gyda chonsŷrn i ddanfôn bwyd wrth ddanfôn Barnabas a Saul i Jerwsalem? Beth petaent wedi penderfynu: “Newyn yw y drwg pennaf yn y byd. Rhaid pwysleisio hwnnw.” Petaent wedi gwneud hyn fe fyddent yn fuan iawn wedi colli eu ffordd. Rhaid i'r Eglwys ddelio â newyn, ond hyd yn oed petai pob newyn yn diflannu, buasai pobl yn dal i fod mewn angen am drôedigaeth. Rhaid i ni gael y balans iawn yn y mater yma, wrth gwrs. Mae pobl sydd yn newynu angen pryd o fwyd cyn i ni gyflwyno'r Efengyl iddynt. Ond, rhaid i ni beidio anghofio ein bod wedi ein gorchymyn i fynd i'r holl fyd i bregethu yr Efengyl. Ni ddylid byth anghofio y gorchymyn yma.

## Beth am fynd ymlaen i ddarlflen:

Marc 16:15–16; Rhuf. 10:13–14; 2 Tim. 1:5–8; 4:1–5; 1 Pedr 2:12

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw pwysigrwydd geiriau yn nhystiolaeth y Cristion?
2. Beth yw pwysigrwydd gweithredoedd?

## Gweddi

O Dad, rwyf wedi rhoi'r gwaith pwysicaf yn y byd i'th Eglwys – y gwaith o arwain pobl atat ti. Cynorthwya ni yn awr i ailgyflwyno ein hunain i'r gwaith yma. Does dim yn cyfrif yn fwy na hyn. Yn enw Iesu. Amen.